SWYDDFA **COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD** GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE **POLICE & CRIME COMMISSIONER** NORTH WALES

Cylchlythyr #1 SCHTh Gogledd Cymru – 29 Gorffennaf 2022
OPCC North Wales Newsletter #1 – 29 July 2022

Croeso i'r rhifyn cyntaf cylchlythyr SCHTh a fydd yn ymddangos bob pythefnos!
Welcome to the first edition of the OPCC fortnightly newsletter!

Gogledd Cymru yn rhannu yng nghronfa aml-filiynau'r Swyddfa Gartref i wneud strydoedd yn fwy diogel

Croesawodd Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, Andy Dunbobbin, 24 Gorffennaf y newyddion cyffrous fod ymgais am £1.5 miliwn o gyllid gan y Swyddfa Gartref i wneud strydoedd Gogledd Cymru yn fwy diogel wedi llwyddo.

Bydd cyllid o bedwaredd rownd menter Strydoedd Diogelach yn cyfrannu tuag at gynorthwyo prosiectau yng Nghaergybi, Wrecsam a Glannau Dyfrdwy. Mae'r Gronfa Strydoedd Diogelach yn rhaglen £75 miliwn gan y Swyddfa Gartref sy'n annog Comisiynwyr Heddlu a Throsedd ac awdurdodau lleol i gynnig am fuddsoddiad am fentrau er mwyn atal trosedd cymdogaethau. Gweithiodd tîm y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn agos gyda Heddlu Gogledd Cymru, awdurdodau lleol, ysgolion, gwasanaethau cyfiawnder a phartneriaid y trydydd sector i sicrhau fod y cynnig wedi cael cymaint o gefnogaeth a phosibledled yr ardaloedd sy'n derbyn cyllid. **Darllenwch fwy yma.**

North Wales shares in multi-million pound Home Office fund to make streets safer

On 25 July, North Wales Police and Crime Commissioner, Andy Dunbobbin, welcomed the exciting news that a £1.5 million bid for funding from the Home Office to make streets safer across North Wales has been successful.

Funding from the fourth round of the Safer Streets initiative will go towards supporting projects in Holyhead, Wrexham and Deeside. The Safer Streets Fund is a £75 million Home Office programme that encourages Police and Crime Commissioners and local authorities to bid for investment for initiatives to prevent neighbourhood crime. The Police and Crime Commissioner's team worked closely with North Wales Police, local authorities, schools, justice services and third sector partners to ensure the bid had as much support as possible across the areas receiving funding. **Read more here.**

CHTh yn ymweld â Phwllheli i weld sut yr ymdrinnir ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y dref

Atal ymddygiad gwrthgymdeithasol a gweld prosiectau yn cynorthwyo i ymgysylltu gyda phobl ifanc oedd ffocws ymweliad gan Andy Dunbobbin a Wayne Jones, Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, i Bwllheli ar ddydd Iau, 21 Gorffennaf. Roedd cerdded o gwmpas y dref yn un o nifer o sesiynau ymgysylltu â'r cyhoedd yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (ASB) a fu'n rhedeg o 18-22 Gorffennaf, ac yn rhan o ffocws y CHTh ar ASB a chadw pobl Gogledd Cymru yn ddiogel sy'n digwydd drwy'r flwyddyn.

Yn ystod yr ymweliad, mi wnaeth Andy gwrdd â SCCH lleol, cynrychiolwyr Cyngor Tref Pwllheli, Gwasanaethau Ieuenctid Gwynedd ac Ymddiriedolaeth yr Heddlu a'r Gymuned. **Darllenwch fwy yma.**

PCC visits Pwllheli to see how anti-social behaviour is being tackled in the town

Combatting anti-social behaviour and seeing projects to help engage with young people was the focus of a visit by Andy Dunbobbin and Deputy Police & Crime Commissioner, Wayne Jones to Pwllheli on Thursday, July 21. The walk around the town was one of a number of engagement sessions with the public during ASB Awareness Week, which ran from 18-22 July, and formed part of the PCC's year-round focus on the issue of ASB and keeping people in North Wales safe.

While on the visit, Andy met local PCSOs, representatives from Pwllheli Town Council, Gwynedd Youth Services, and the Police and Community Trust. **Read more here**

Ffilm yn Rhuthun yn rhannu neges ddiogelwch rhywun ifanc lleol a laddwyd mewn gwrthdrawiad ffordd

Dangoswyd ffilm yn adrodd hanes rhywun ifanc lleol a laddwyd yn drasig mewn gwrthdrawiad traffig ffordd mewn digwyddiad arbennig yn Rhuthun ar 12 Gorffennaf lle rhannwyd ei neges diogelwch ffordd grymus gyda'r gymuned leol.

Mae Stori Olivia yn un o newid cadarnhaol a ddaeth o golled drasig. Mae'n adrodd hanes Olivia Alkir, 17, o'r dref, a laddwyd ar y B5105 ym mis Mehefin 2019 yn dilyn gwrthdrawiad a achoswyd gan ddau yrrwr ifanc yn rasio. Roedd rhieni Olivia, Jo a Mesut Alkir, yn bresennol yn y gynulleidfa, a roedd y dangosiad yn gyfle hefyd i bwysleisio galwad Mr a Mrs Alkir i flwch du gael ei osod yng ngheir holl bobl ifanc. Mae hyn er mwyn monitro gyrru a cheisio atal trasediau tebyg. **Darllenwch fwy yma.**

Film showing in Ruthin shares safety message of local young person killed in road collision

A film telling the story of a local young person who was tragically killed in a road traffic collision was shown at a special event in Ruthin on 12 July where its powerful road safety message was shared with the local community for the first time.

Olivia’s Story is one of positive change borne of tragic loss and tells the tale of 17-year-old Olivia Alkir from the town, who was killed on the B5105 in June 2019 following a collision caused by two young drivers racing. Olivia’s mum and dad, Jo and Mesut Alkir, were present in the audience and the showing was also an opportunity to emphasise Mr and Mrs Alkir’s call for a black box to be fitted to every young person’s car, to monitor driving and try and prevent further such tragedies. **Read more here.**

Nod clwb pêl droed o Fôn o atal ymddygiad gwrthgymdeithasol

Aeth Andy Dunbobbin i gae Clwb Pêl droed Llangoed ar 20 Gorffennaf i ddysgu mwy am sut mae arian wedi ei atafaelu oddi wrth droseddwyr yn cynorthwyo i ariannu eu prosiect. Galluogodd yr ymweliad i'r CHTh gwrdd â'r tîm ynghlwm, gweld sut mae'r arian wedi cael ei fuddsoddi a sut mae'r prosiect yn ymgysylltu gyda phobl ifanc.

Mae Clwb Pêl droed Llangoed yn glwb cymunedol sydd â thîm pêl droed hŷn sy'n darparu ar gyfer bechgyn ac oedolion rhwng 16-40 oed. Ar hyn o bryd, hwn ydy'r unig glwb pêl droed sy'n Ward Seiriol yn Ynys Môn. Dros y 12 mis diwethaf, mae Cyngor Cymuned Llangoed a Phenmon wedi bod yn gweithio gyda'r Clwb i wella'r adnoddau i chwaraewyr y clwb ynghyd â'r cyhoedd yn yr ardal**.** **Dysgwch fwy yma.**

Anglesey football club’s goal to prevent anti-social behaviour

Andy Dunbobbin visited Llangoed Football Club’s ground on 20 July to learn more about how money seized from criminals is helping fund their project. The visit enabled the PCC to meet the team involved, to see how the funding is going to be invested and how the project engages with young people.

Llangoed Football Club is a community-orientated club that has a senior football team that caters for boys and adults between 16-40. It is currently the only football club serving the Seiriol Ward of Anglesey. Over the last 12 months, the Llangoed and Penmon Community Council has been working with the Club to improve the amenities for the players of the club as well as the public in the area**.** **Learn more here.**

CHTh yn ymweld â Llangefni i weld adnodd newydd sy'n helpu dod â chyfiawnder yn agosach at ddioddefwyr

Aeth Andy Dunbobbin i Langefni ar 20 Gorffennaf i weld adnodd newydd sy'n galluogi dioddefwyr a thystion mewn achosion o gam-drin domestig a thrais rhywiol i roi tystiolaeth gyda chyswllt byw, ymhell oddi wrth adeiladau'r llys.

Mae'r Safle Tystiolaeth o Bell yn golygu bod rhai sydd wedi dioddef troseddau yn gallu rhoi tystiolaeth yn nes at eu cartref, ac yn cynnig lleoliad llai brawychus na llys traddodiadol. **Darllenwch fwy yma.**

PCC visits Llangefni to see a new facility that is helping to bring justice closer to victims

Andy Dunbobbin visited Llangefni on July 20 to see a new facility that is enabling victims and witnesses in domestic abuse and sexual violence cases to give evidence via live link, away from court buildings.

The Remote Evidence Site means victims of crime can give evidence in an environment that is closer to their home, and which offers a less intimidating setting than a traditional courtroom. **Read more here.**

Rhybudd Cymunedol

Cofrestrwch yma ar gyfer Rhybudd Cymunedol Gogledd Cymru i dderbyn y wybodaeth ddiweddaraf am droseddau, digwyddiadau, apeliadau, cyngor atal trosedd a gweithgareddau plismona cyffredinol yn eich ardal. Mae cofrestru yn rhad ac am ddim ac yn gyflym a syml.

Community Alert

Register here for North Wales Community Alert to receive up to date information about crime, engagement events, appeals, prevention advice and general policing activity in your local area. Registration is completely free, quick and simple.

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU | OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

Rydych chi'n derbyn yr e-bost hwn oherwydd eich bod wedi cofrestru i dderbyn ein e-byst cylchlythyrau.
You are receiving this email as you signed up to receive our newsletter updates.

Eisiau newid sut rydych chi'n derbyn yr e-byst hyn?
Cysylltwch â ni drwy socialmedia@northwales.police.uk i ddiweddaru eich dewisiadau neu ddad-danysgrifio o'r rhestr hon.

Want to change how you receive these emails?
Contact us via socialmedia@northwales.police.uk to update your preferences or unsubscribe from this list.

Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
Pencadlys yr Heddlu
Glan y Don
Bae Colwyn
Conwy LL29 8AW

Office of the Police and Crime Commissioner North Wales
Police Headquarters
Glan y Don
Colwyn Bay
Conwy LL29 8AW

Gallwch ddarllen ein polisi preifatrwydd yma:
https://www.northwales-pcc.gov.uk/cy/polisi-preifatrwydd

You can read our privacy policy here:
https://www.northwales-pcc.gov.uk/privacy-policy